Llywodraeth Cymru

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
Gorchymyn Mewnforio Pathogenau Anifeiliaid 1980 ("IAPO")
Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid (Cymru) 2008 (Gorchmynion "SAPO")

# Trwydded Gyffredinol i Fewnforio unrhyw Pathogen / Cludwr Anifeiliaid Dynodedig (fel y'i Diffinnir gan Erthygl 3 (1) o'r Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig) - Cymru

Mae Gweinidogion Cymru trwy'r drwydded fewnforio gyffredinol hon a roddwyd o dan amodau'r IAPO, yn awdurdodi mewnforio:

| | |
|---|---|
| Unrhyw Bathogen Anifeiliaid Penodedig neu gariwr pathogen o'r fath, fel y'i diffinnir gan erthygl 3(1) yn unrhyw un o Orchmynion SAPO | (Pathogen neu gariwr) |

o

| | |
|---|---|
| Unrhyw le y tu allan i Brydain Fawr | (Y wlad y daw ohoni) |

yn

| | |
|---|---|
| Unrhyw borthladd neu faes awyr masnachol neu filwrol yng Nghymru | (Man mewnforio) |
| At ddibenion ymchwil a diagnostig ym Mhrydain Fawr yn unig | (Diben) |

tan y dywedir yn wahanol neu y caiff ei dirymu gan Weinidogion Cymru.

Neil Roberts

Dros ac ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig: 1 April 2020

# Amodau ar gyfer Mewnforio unrhyw Pathogen / Cludwr Anifeiliaid Dynodedig fel y'i Diffinnir gan Erthygl 3 (1) o'r Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig

**Cyn mewnforio**

1. Rhaid pacio'r deunydd mewn cynwysyddion wedi'u selio.

2. Rhaid taenu'r deunydd pacio mewnol ac allanol â diheintydd addas cyn iddo adael y cyfeiriad allforio.

3. Rhaid nodi rhif y drwydded gyffredinol sy'n rhoi'r hawl i fewnforio'r deunydd yn glir ar label ar y deunydd pacio. Dylai'r label ddweud hefyd y caiff y deunydd ei fewnforio i Brydain Fawr at ddiben ymchwil neu ddiagnostig mewn labordy sydd wedi'i awdurdodi i drin a storio'r pathogen neu'r cariwr sy'n cael ei fewnforio.

4. Waeth sut mae'n cael ei gludo, rhaid pacio pob sbesimen yn unol â holl ofynion rheoliadau'r Swyddfa Bost berthnasol neu'r Gymdeithas Cludiant Awyr Rhyngwladol (IATA).

5. Rhaid rhoi gwybod i'r **Ganolfan Fasnachu Ryngwladol yng Nghaerliwelydd Carlisle (CITC)** am eich bwriad i ddefnyddio'r Drwydded Gyffredinol drwy lenwi ffurflen hysbysu mewnforiwr ar gyfer rhan 1, Atodlen 1, pathogenau anifeiliaid penodedig (AP05) (sydd ar gael ar GOV.UK: https://www.gov.uk/guidance/bringing-specified-animal-pathogens-into-gb) a'i e-bostio at y Tîm Mewnforion o leiaf un diwrnod gwaith cyn ei fewnforio. Rhowch IV69(W) ym mlwch pwnc eich e-bost, gan atodi unrhyw drwydded a wnaed o dan un o Orchmynion SAPO.

**Ar ôl mewnforio**

6. Rhaid cadw'r deunydd yn ei ddeunydd pacio drwy'r amser a'i gludo'n syth i eiddo pen y daith.

7. Wrth ei gludo ac wedi cyrraedd pen ei daith, rhaid drin y pathogen bob amser yn unol â'r amodau perthnasol yn y drwydded a wnaed o dan un o Orchmynion SAPO.

**Nodiadau**

Rhoddir y drwydded hon o dan ddeddfwriaeth iechyd anifeiliaid ac ni fydd eithriad trwy waharddiad, rheoliad neu gyfyngiad gan Adran neu Asiantaeth Llywodraeth arall yn effeithio arni.

Dim ond labordai a restrwyd ym Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1099 wedi'i gymathu ar 1 Awst 2018 sydd wedi'u hawdurdodi i drin feirws clwy'r traed a'r genau.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
Centre for International Trade Carlisle
Imports Team
Eden Bridge House,
Lowther Street,
Carlisle,
CA3 8DX

Ffôn: 03000 200 301
e-bost: imports@apha.gov.uk

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.